



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Deddf Lefelau Staff Nyrsio Cymru 2016 – Canllawiau Statudol Diwygiedig

Diwygiadau a wnaed i'r canllawiau statudol i gynnwys wardiau
cleifion mewnol pediatreg.

Dyddiad cyhoeddi: 16 Medi 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Rhagfyr 2020

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'r canllawiau statudol sy'n ofynnol dan adran 25D o Ddeddf GIG (Cymru) 2016, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Mae'r canllawiau'n ymwneud ag adrannau 25B a 25C o Ddeddf 2006; y dyletswyddau i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio, a'r dull cyfrifyddu.

Cafodd y canllawiau eu diwygio er mwyn cynnwys cyfeiriadau at wardiau cleifion mewnol pediatreg, a fydd yn ddarostyngedig i adrannau 25B a 25C o fis Hydref 2021.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 16 Rhagfyr 2020.

Anogir chi i ymateb ar-lein er bod croeso i chi wneud hynny trwy e-bost neu'r post hefyd.

Ar-lein

Dilynwch gyfarwyddiadau'r ffurflen ar-lein ar ein tudalen we hymgyngoriadau.

E-bost

Llenwch y ffurflen ymateb yn Atodiad 1 (ar gael fel dogfen Word ar dudalen we'r ymgynghoriad) a'i hanfon at:

OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk

Post

Llenwch y ffurflen ymateb yn Atodiad 1 (ar gael fel dogfen Word ar dudalen we'r ymgynghoriad) a'i hanfon at:

Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/5/enacted/welsh>

**Manylion
cyswllt**

Rhagor o wybodaeth:

E-bost: OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 03000251436

**Dogfen hefyd ar
gael yn
Saesneg:** gov.wales/consultations

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgylmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Beth yw'r prif faterion?

1. Mae adrannau 25B a 25C o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, yn gosod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd Lleol (BILI) ac ymddiriedolaethau'r GIG (Ymddiriedolaethau) yng Nghymru i gyfrifo a chynnal y lefelau staff nyrsio ar gyfer wardiau meddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol a wardiau llawfeddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol. Y rhesymeg dros gymhwysu'r dyletswyddau yn y lleoliadau hyn yn unig oedd bod adran 25C yn mandadu'r defnydd o adnodd cynllunio gweithlu ar sail tystiolaeth ar gyfer y broses gyfrifo, ac yn 2016, dim ond wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt i oedolion oedd yr unig leoliadau â digon o sail dystiolaeth i greu adnodd o'r fath (Lefelau Gofal Cymru).
2. Fodd bynnag, ers i'r dyletswyddau ddod i rym yn y lleoliadau hynny, mae Grŵp Nyrsio Paediatreg Cymru Gyfan wedi llywio'r gwaith o ddatblygu a phrofi offeryn Lefelau Gofal Cymru ar gyfer lleoliadau cleifion mewnol pediatreg. Yn sgil y gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymestyn y dyletswyddau yn adrannau 25B a 25C i wardiau cleifion mewnol pediatreg. Mae ffrydiau gwaith unigol Grŵp Staffio Nyrsys Cymru i gyd yn gweithio i ddatblygu adnoddau tebyg ar gyfer lleoliadau nyrsys eraill, a byddwn yn dal i adolygu'r potensial i ymestyn y dyletswyddau hyn i'r lleoliadau hynny.
3. Mae Adran 25D yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau am y dyletswyddau dan adrannau 25B a 25C, sy'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau eu hystyried wrth arfer eu dyletswyddau dan yr adrannau hynny. Cafodd y canllawiau statudol eu cyhoeddi'n wreiddiol ym mis Tachwedd 2017, a dim ond i wardiau meddygol i oedolion a wardiau i gleifion llawfeddygol yr oedd yn berthnasol.
4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â mân newidiadau i'r canllawiau statudol hynny, sy'n angenrheidiol o gofio'r penderfyniad i ehangu'r dyletswyddau i wardiau cleifion mewnol pediatreg.
5. Efallai y bydd meysydd heb eu cynnwys yn y canllawiau hyn, fel adrodd a monitro, yn rhan o ganllawiau anstatudol yn y dyfodol.

Lle rydyn ni arni nawr?

6. Mae'n anorfod fod pandemig COVID 19 wedi amharu cryn dipyn ar waith Grŵp Staffio Nyrsys Cymru Gyfan (sy'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu adnoddau cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ofynnol dan y Ddeddf), a pharatoadau'r Byrddau Iechyd eu hunain er mwyn ymestyn y dyletswyddau i faes pediatreg.
7. O'r herwydd, ym mis Mawrth 2020, penderfynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ohirio'r ymgynghoriad hwn, o fisoedd yr haf fel y bwriadwyd, er mwyn i'r GIG ganolbwyntio ar ymateb i'r pandemig.
8. Yn yr un modd, mae'r Gweinidog wedi cytuno i fod yn hyblyg o ran dyddiad pryd y daw'r rheoliadau i rym, sy'n angenrheidiol i estyn y dyletswyddau (a ragwelwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Ebrill 2021), er mwyn caniatáu amser i wasanaethau

oresgyn yr oedi annisgwyl i'r paratodau. Mis Hydref 2021 yw'r dyddiad targed newydd ar gyfer dod i rym, ond gallai hyn newid yn amodol ar newidiadau pellach.

9. Ar hyn o bryd, bwriedir trafod y rheoliadau hyn, sydd i'w cyflwyno dan adran 25B(3)(c), gan y Senedd ym mis Chwefror 2021.

Diwygiadau i'r canllawiau statudol

10. Mae'r canllawiau statudol diwygiedig i'w gweld yn Atodiad 2, gyda'r holl newidiadau wedi'u tracio'n glir. Mae'r newidiadau'n perthyn i dri chategori yn fras:

- a) Cynnwys diffiniad ar gyfer wardiau cleifion mewnol pediatreg ac addasiadau cyfatebol i'r diffiniadau cyfredol o wardiau meddygol i oedolion a wardiau llawfeddygol o gleifion mewnol (paragraffau 28-30);
- b) Ychwanegu rhestr o'r lleoliadau gofal a fyddai'n cael eu heithrio o'r diffiniad o wardiau cleifion mewnol pediatreg (paragraff 30); ac
- c) Addasiadau i'r naratif cyffredinol, er mwyn adlewyrchu sefyllfa ddiweddaraf adrannau 25B a 25C sy'n berthnasol i'r lleoliadau ychwanegol hyn.

Hefyd, ceir mân newidiadau teipio a fformatio i'r ddogfen wreiddiol drwyddi draw. Esbonnir enghreifftiau penodol ymhellach gan sylwadau, lle bo modd.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

11. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i chi rannu unrhyw sylwadau am y diwygiadau i'r canllawiau statudol, a fanylir yn Atodiad 2.
12. Defnyddiwch y ffurflen ymateb ar-lein ar ein tudalen we ymgynghoriadau.
13. Fel arall, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymateb yn Atodiad 1 (ar gael fel dogfen Word ar dudalen we'r ymgynghoriad) sy'n cynnwys yr un cwestiynau ymgynghori, a'i dychwelyd atom yn unol â'r cyfarwyddiadau ar flaen y ddogfen hon.

**Ffurflen ymateb
i'r
ymgyngoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/Ffôn:

Eich cyfeiriad:

| | | |
|--|---|--|
| Pa un ydych chi: <i>(dewiswch un o'r canlynol)</i> | Claf / Aelod o'r teulu neu ofalwr i'r claf | |
| | Aelod o'r cyhoedd | |
| | Aelod o staff y GIG | |
| | Bwrdd Iechyd Lleol / Ymddiriedolaeth GIG | |
| | Sefydliad â diddordeb/budd yn y gwasanaeth iechyd | |
| | Cynrychiolydd y sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, grŵp gwirfoddol, grŵp hunangymorth, grŵp cydweithredol, menter, grŵp crefyddol, sefydliad dielw) | |
| | Grŵp arall na restrir uchod | |

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad yn debygol o fod yn gyhoeddus, nail ar y we neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma:

1) Ydych chi'n credu bod y diffiniadau o 'wardiau cleifion mewnol pediatreg', 'wardiau meddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol' a 'wardiau llawfeddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol'. ym mharagraffau 28 i 30 y canllawiau statudol, yn ddigon clir a hawdd i'w deall?

Os na, sut y gellir eu gwneud yn haws i'w deall?

Eich ateb yma

2) Ydy'r rhestr o leoliadau gofal wedi'u heithrio (lleoliadau na ystyrir yn rhai sy'n rhan o ddiffiniad ward cleifion mewnol pediatreg) ym mharagraff 30 y canllawiau statudol yn briodol? Os na, pam felly?

Eich ateb yma

3) Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y diwygiadau cyffredinol a wnaed i'r canllawiau statudol, er mwyn adlewyrchu cynnwys wardiau cleifion mewnol pediatreg o fewn y dyletswyddau dan adrannau 25B a 25C?

Eich ateb yma

- 4) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Eich ateb yma

- 5) Hoffem glywed eich barn ar effeithiau'r canllawiau ar y Gymraeg, yn benodol:**

- i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; a**
- ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Eich ateb yma

- 6) Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gellir llunio neu addasu'r canllawiau er mwyn:**

- i) cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a**
- ii) pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Eich ateb yma

- 7) Hoffem gael eich barn ar effaith y canllawiau ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.**

Mae nodweddion gwarchoddedig yn golygu: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

- i) Ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**
- ii) Ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

Eich ateb yma